COFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CYNGOR TREF MACHYNLLETH
Wedi ei cynnal ynY Plas ar Ddydd Llun 21 Rhagfyr 2009

Yn Bresennol: Cyng. D W Davies, B. Dunn; G Baldwin; S Nicholas; E Hughes; S Rowlands; K Hubbard

Hefyd yn Bresennol: J. H. Parsons – Clerk; M Biffin - Secretary

---

5423 CT 21.12.09 **Ymddiheuriadau**

- Cllrs. M Williams; G Jenkins; G Davies; D Lewis

5424 CT 21.12.09 **Cyflwyniad**

Fe roddwyd gyflwyniad gan Mr Richard Lee o'r ymddiriedolaeth Ambiwlans ac yn ei gefnogi oedd Mr John Howard o gymuned Iechyd Sir Drefaldwyn. Fe ddaru Cyng S Nicholas ddatgan diddordeb – Dywedodd Mr Lee bod gwellhad o 4% yn y gwasanaeth yn y Gogledd a 3% yn De Powys ond yr oedd ddim ond yn cyrraedd 50% o targed LCC o 65% o alwadau yn cael ei ateb mewn 8 minud – Dywedodd Mr Lee bod hyn oherwydd ardaloedd gwledig Powys a bod y rhan fwyaf o'r gorsfeidd ddim ond un cerbyd ar gael – Mae Powys ar hyn o bryd yn cael ei rheoli o Cwmbran ond o Mis Ionawr fe ddaw y rheolaeth o Gaerfyrddin ac oedd Mr Lee yn credu fydd gwellhad yn y gwasanaeth oherwydd mi fydd y staff a mwy o brofiad I ddelio gyda Cymunedau Gwledig – Dywedodd Mr Lee bod raid l'r staff gael toriad o hanner awr ar ôl chwech awr o waith – mae hyn yn dod o dan cyfarwyddyd gwaith Ewropeaidd – a fe all hyn fod yn achos I rai ardaloedd fod heb ddim cyflenwad ond dywedodd Mr Lee bod y rhan fwyaf or staff yn fwy na parod I gyflenwi y toriad – Dywedodd Mr Lee bod dwy stesion yn Powys, Llanidloes a Llanfachlyn ddim yn 24 awr a mi fyddai yn edrych at uno ei oriau iddynt gyfro ei gilydd ac fellu yn medru darparu cyfro o 25 awr. Trafodwyd yr Ambiwlans Awyr a dywedwyd bod unrhyw gostau heblaw y Peilot yn gyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth.Mae LCC yn busoddi £4m arall yn yr ambiwlans Awyr o Mis Ebrill a fe all hyn ddarparu rhagor o staff yn Powys – Dywedodd Mr Lee bod dim cynlluniau I leihau y gwasanaeth Ambiwlans yn Powys a mi fyddai cynnydd yn iws yr Ambiwlans Awyr – Dywedodd Cyng D.W.Davies pan oedd o wedi galw am ambiwlans maent wedi bod yn brydlon ac effeithiol – Dywedodd Mr Lee bod 12 o staff yn Machynlleth ac ar hyn o bryd mae dwy swydd yn wag. Yr oedd yn rhedeg dwy ddaliad I gyfro 24 awr. Fe roddodd Mr Howard adroddiad ar y ceisiadau cyfoes yn Powys a llenwi y swyddi – Gofynnodd Cyng Dunn petai defnyddio mwy or Ambiwlans Awyr pwy fyddai yn talu – Dywedodd Mr Lee fyddai'r ymddieriedolaeth Ambiwlans yn gyfrifol – Dywedodd Cyng Hubbard bod y sylwadau ddaru Edwina Hart wneud yn dangos nag oedd yn deallt Cymunedau Gwledig. Awgrymodd Mr Lee l'r Cyngor ysgrifennu at Edwina Hart I ddweud ei bod yn pryderu am ei sylwadau. – gofynnodd Cyng Hughes os oedd y staff yn yswiredig pan fyddent yn gweithio trwy y toriadau – Dywedodd Mr Lee bod y staff yn yswiredig pan fyddent yn gweithio neu ddim fel ei bod yn medru rhoddi cymmorth pe tai nhw yn dod ar draws damwain – Dywedodd Cyng Baldwin a Cyng Hubbard bod y "First Responders" yn Machynlleth ddim wedi cael ei defnyddio nac ei galw allan a bod hyn wedi bod yn wastraff o gymmorth. – Gofynnodd Cyng Hubbard fyddai y £4m ychwanegol yn golygi mwy o o gerbydau Ambiwlans – Dywedodd Mr Lee na fyddai yn gwybod tan fyddai yn gwybod faint or pres fyddai I Powys – Dywedodd Cyng Rowlands pan fyddai'r meddygon yn galw ambiwlans I glaf heb frys fe all gymeryd oriau cyn l'r ambiwlans gyrraedd – Dywedodd Mr Lee ei fod yn teimlo bod y meddygon yn galw ambiwlans yn rhy

aml a bod hyn yn ymestyn yr adnoddau ond oedd pob galwad yn cael blaenoriath fel oedd angen – Adroddodd Cyng Rowlands y manylion o alwad 999 yr oedd hi wedi gwneud a bod ymddiriedolaeth Ambiwlans yn dweud nag oeddynt wedi ei dderbyn - Dywedodd Mr Lee petai hi yn rhoddi'r manylion iddo mi fyddai yn bersonnol yn edrych I mewn I hyn. – Dywedodd Mr Lee fyddai yn edrych I ddefnyddio'r Uned Niwed Ddibwys yn llawer mwy – Dywedodd Cyng Dunn bod BLIP wedi cau yr Uned yn Machynlleth, felly pam bod yr ymddiriedolaeth Ambiwlans yn ceisio defnyddio mwy arnynt. Dywedodd Mr Lee bod yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans a'r BILP yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio'r Uned Niwed Dibwys - - Gofynnodd Mr Parsons pam os oedd Ambiwlans Machynlleth ddim yn rhydd na fedrai Ambiwlans Dolgellau gael ei gyrru – Dywedodd Mr Lee mi fydd yn awr yn bosibl oherwydd ers y 9fed o Ragfyr mae meddalwedd newydd wedi ei roddi I mewn I ganiatâu unedau gael ei gyrru or stesion agosaf oedd ar gael yn ddifater o pwy Sir yr oeddynt wedi ei lleoli – Diolchodd Cyng Rowlands I Mr Lee a Mr Howard am fod yn bresennol.

5425 CT 21.12.09 **Cofnodion**

Mae Cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor.

5426 CT 21.12.09 **Busnes Stadurol**

Bydd raid cynnyddu 'r yswiriant ar Cloc y Dref tra fydd gwaith yn mynd ymlaen ar y Cloc - **Cytunwyd**

5427 CT 21.12.09 **Busnes y Maer**

- Rhoddodd y Maer ei adroddiad a dywedodd ei bod wedi bod yn brysur iawn ac weithiau wedi bod yn bresennol mewn tri digwyddiad mewn un diwrnod.
- Dywedodd y Maer ei bod yn bresennol mewn cyngerdd yn y Tabernacl, Cyngerdd I ddiolch I Mr Dilwyn Jones Ysgol Gynradd Machynlleth. Yr oedd Mr Jones yn ymddeol. Gofynnodd y Maer I lythyr gael ei yrru I Mr Jones I ddiolch am ei waith yn y Dref - **Cytunwyd**

5428 CT 21.12.09 **Materion yw Codi**

- Mamau Beichiog**(5380)** – llythyr I Ymddiriedolaeth Hywel Dda ac I BLIP ond dim ateb hyd y dyddiad hyn.
- Fforwm Sir Drefaldwyn – Does dim costau I ymuno, ffurflen wedi ei gyrru **(5402)**
- Arwyddau cyflymder ar Ffordd y Garth **(5404)** – llythyr oddiwrth CSP
- Byrddau hysbysiad wrth y Llyfrgell – llythyr I ac oddiwrth Pennaf y Llyfrgell **(5410)**

5429 CT 21.12.09 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor.

- Dywedodd Cyng Davies bod CSP wedi caniatâu £40,000 I gynnal gwaith ar Ffordd yr Efail.(Treowain)

5430 CT 21.12.09 **Adroddiad y Panel Iechyd**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

5431 CT 21.12.09 **Adroddiad Panel Cloc y Dref**

Rhoddwyd adroddiad am Cloc y Dref l'r Cynghorion.

- Dywedodd Cyng D W Davies fedr gynnal teithiau o tumewn l'r Cloc I ymwelwyr twristiaeth a fedrai y pres gael ei ddefnyddio tuagat cynnal a chadw y Cloc. Dywedodd Cyng Hubbard fyddai hyn yn codi pris yr yswyriant a mi fyddai rhaid cyflogi rhywun I wneud y teithiau a mi fyddai hyn yn costio mwy na'l werth.
- Dywedodd Cyng Dunn bod bobl wedi dweud bod y Cloc wedi arafu tua dwy funud a ni fuasai yn medru taro l'r Flwyddyn Newydd oherwydd bod y gweithwyr I ffwrdd tan 4ydd Ionawr

5432 CT 21.12.09 **Adroddiad Panel y Plas**

Doedd dim Cyfarfod yn Mis Rhagfyr a fe roddodd Cyng Dunn adroddiad diwedd y flwyddyn. Fe dderbyniwyd gan y Cyngor.

- Dywedodd y Clerc ei fod wedi bod bod mewn Cwrt ac oedd y Comisiynwr Traffig wedi dweud ei fod wedi bod mewn cyfarfod yn y Plas ac yr oedd yn argraffedig gyda'r cyfleusterau ar gwasanaeth ac yn enwedig gyda'r cymmorth a roddwyd gan Colin Wilde.

.

5433 CT 21.12.09 **Adroddiad Cyng Sir J.M. Williams**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

- Dywedodd y Clerc ddylsai'r Cyngor longyfarch Cyng Williams am ei adroddiadau gwych.

5434 CT 21.12.09 **Ceisiadau Cynllunio**

- P2009 1112 – Clwb Bowlio – amnewydiad sied a storfa - **Cytunwyd**

5435 CT 21.12.09 **Datganiad Cyfrifon**

Mae cofnodion y Cyfrifon wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor

Date		Chq No	Chq Drawn
02/12/09	R A Gaskell	5190	£ 117.55
	Mark Rumbelow	5191	£ 374.67
	Mel Biffin	5192	£ 130.80
	R A Gaskell	5193	£ 78.68
	Petra Evans - 13 wks	5194	£ 575.00
03/11/2009	R A Gaskell	5195	£ 20.00
09/11/2009	PCC - Rates on Community Centre	5196	£ 274.85
10/11/2009	R A Gaskell	5197	£ 60.00
	Inland Revenue	5198	£ 725.09
18/11/2009	R A Gaskell	5199	£ 130.80
24/11/2009	R A Gaskell	5200	£21,873.30
			£24,360.74

Gohebiaethau

5436 CT 21.12.09

- Apêl o Ganolfan Cynghori Bro Ddyfi – llythyr wedi ei dderbyn o BDAC yn dweud ei bod wedi gyrru llythyr yn gynnar cyn y Cyfarfod Amcangyfrif ond oedd yn rhaid ei fod wedi mynd ar goll yn y Post. Trafodwyd hyn a dywedwyd na dim ond llythyrau a dderbyniwyd cyn y Cyfarfod Amcangyfrif sydd yn mynd I gael sylw a bod hyn wedi cael ei gytuno rhai blynyddoedd yn ôl. Oedd rhai o'r Cynghorion yn teimlo oherwydd bod y llythyr wedi cael ei yrru fe ddylsai gael ei ystyried ond oedd eraill o'r Cynghorion yn teimlo

byddai CTM yn gadael ei hun ar agor I ragor o gymdeithasau ddweud ei bod y cais wedi ei golli yn y Post – cymerwyd bleidlais a Cytunwyd na ddylai BDAC gael ei ystyrio y tro hyn, a ni fedrai CTM fod yn gyfrifol am y Post ddim yn cyrraedd ar amser.

- Airtricity – Hysbysiad o oedi y Fferm Wynt
- Staff Ambiwlans llefydd gwag – Adroddiad o Gyngor Iechyd Sir Drefaldwyn
- Holiadur ynglyn a tai Powys

5437 CT 21.12.09 **Rhifennau**

- Adroddiad Ombwdsman
- Cyllgrawn Pryder Henoed

5438 CT 21.12.09 **Unrhyw Fusnes Arall**

Doedd dim l'w drafod